50122

104

c 1825

# CAN

## YN DANGOS FOD CRIST YN DDUW, *YN GYSTAL AG YN DDYN*; A BOD EI ABERTH YN HAEDDU RHYDDHAD I BECHADURIAID; MEWN GWRTHWYNEBIAD I SOSINIAETH, TAN YR ENW DWYFUNDODIAETH.

*"A gwaed Iesu Grist, ei Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod."*
1 Ioan 1. 7.

---

Gan **OWEN DAFYDD**, Cwm-Ammau.

---

AR Y DON, "BRYNIAU YR IWERDDON."

1

RHYW fyrdd a mwy na hyny, 'does neb all ddweyd pa faint,
Yw haeddiant Crist yn drymach na phechod pawb o'r saint.
Pe buasai yn yr arfaeth i fyn'd i uffern dân,
Fe olch'sai'r holl gythreuliaid i gyd yn berffaith lân.

2. Er cwrdd â geiriau newydd i roddi ei glod i maes,
Ac uno â'r holl angylion, ac etifeddion gras;
Heb enwi dim o'r unpeth ond unwaith yn y gân,
Hyd eithaf trag'wyddoldeb, ddaw glod e byth y'mlaen.

3. Pe b'ai angylion nef bob un yn myn'd yn fil,
Ac enill rhyw fyrddiwnau bob munud yn y sgil,
I roddi glod ef allan, am farw ar y pren,
Hyd eithaf trag'wyddoldeb ddoi dim o'r gwaith i ben.

4. 'Tai sant am bob glaswelltyn sydd ar y ddaear lawr,
A mil am bob tywodyn sy ar fin y moroedd mawr,
Tafodau gan y rhei'ny fwy na rhifedi'r dail,
Rhy fach i ddweyd gogoniant sy'n haeddiant *Adda'r ail.*

5. 'Tai un o'r côr nefolaidd yn dod o'r nef i lawr,
I rifo llwch y ddaear, a gwlith y boreu wawr,
Fe allai wneuthur hyny mewn 'chydig iawn o bryd,
Dweyd haner haeddiant Iesu nid eill y côr i gyd.

6. Dywedodd Duw ei hunan wrth Abra'm yn ddiffael,
Lai lai i arbed Sodom, pe buasent yno i'w cael:
Ni dd'wedodd, ac ni ddywed, wrth un pechadur trist,
Ddim llai i gadw enaid na haeddiant Iesu Grist.

7. Mae dyndod glân i'w weled yn mherson Iesu hardd,
Pan ddaeth y milwyr ato a'i weled yn yr ardd:
Eu cwympo yn wysg eu cefnau â gair o'i enau, clyw,
Sy'n dangos i ni'n eglur ei fod yn gywir Dduw.

8. Mae addoliad iddo'n perthyn, 'nol dim ddyallais i,
Gan holl drigolion daear, a lluoedd nefoedd fry;
Os gwir a dd'wed y Beibl, sef genau'r Ysbryd Glân,
Pa fodd gall Dwyfundodiaid i ddwyn eu credo 'mlaen!

9. Fe rodd y Tad ei hunan y cyfan yn ei law,
Sydd yn y nef a'r ddaear, a chymaint ag a ddaw;
Athrawiaeth gyfeiliornus, i'w chredu nid oes llun,
I'r Duw anfeidrol *fentro* y rhai'n yn nwylaw dyn!

10. Os credai'r Dwyfundodiaid rhaid i mi ddwyn y'mlaen
Ryw grefydd groes i'r Beibl, a iaith yr Ysbryd Glân,
Sy'n dweyd mai'n enw Iesu y plyga pawb o'r bron,
Sydd yn y nef a'r ddaear, a than y ddaear hon.

11. Os nad oedd ond creadur, mae gan Iuddewon sail
I ddweyd yn wyneb Beibl na ddaeth mo *Adda'r ail.*
Yr achos fod y rhei'ny yn gwrthod Iesu, clyw,
Yw eisiau gallu credu ei fod yn berffaith Dduw.

12. 'Dyw'r Tad o ran ei berson yn barnu neb o'r byd;
Fe ro'dd bob barn yn gryno yn nwylaw'r Mab i gyd:

X70 F22 3361

Os gwir dd'wed Dwyfundodiad, nad oedd ond dyndod, clyw,
Rhaid iddo farnu'r Beibl am ddweyd ei fod yn Dduw.

13. Mi wn i angeu gredu am Iesu ar y groes,
'R un peth a'r Dwyfundodiaid, nad oedd e yn ddi-os:
Newidiodd hwn ei feddwl ar fore'r trydydd dydd;
Efe oedd wedi rwymo, a'r Iesu'n rhodio'n rhydd.

14. Cynghora i 'r Dwyfundodiaid i gredu ar sicrach sail,
Mai dyn oedd Adda'r cyntaf, Duw ddyn oedd *Adda'r ail;*
Ei ddyndod oedd yr aberth offrymwyd drosom ni,
A'i Dduwdod oedd yr allor, a'r daliar ar Galfari.

15. Ni all'sai Duw ddim dyoddef, 'doedd ganddo ef ddim gwaed,
Heb ollwng gwaed, medd Beibl, 'doedd dim foddlonai'r Tad,
Ei gyfraith lân droseddwyd, a'r bai oedd ar y dyn,
Cyn gwneyd y rhwyg i fyny rhaid clwyfo'r Mab ei hun.

16. O! credwch fod yr Iesu mor uchel Dduw a'r Tad,
Mor isel ddyn a ninau, yn meddu cig a gwaed:
Bydd 'r undeb yn rhyfeddol i drag'wyddoldeb hir,
'Dall neb ei gyflawn ddirnad, ac eto mae yn wir.

17. 'Rwy'n credu iddo ddyfod o gariad lawr o'r nef,
'Rwy'n credu fod y Duwdod yn wastad ynddo ef,
'Rwy'n credu fod e'n ddigon i ateb cais y Tad,
A bod maddeuant cyflawn i'r duaf yn ei waed.

18. Dych'mygaf wel'd angylion a'u calon bron yn brudd
Wrth fyn'd i uffern obry i roi'r cadwynau'n rhydd,
I ollwng diaflaid allan, fwy na rhifedi'r dail,
I fynydd bâch Calfaria i brofi Adda'r ail.

19. Dych'mygaf wel'd cyfiawnder a'i filiau yno'n llawn;
A'r gyfraith lân droseddwyd yn gwaeddi, Rhaid cael Iawn;
A'r Tad yn cilio o'r golwg, a'r Iesu ar y pren;
Pa ryfedd bod i'r haulwen dair awr i guddio ei ben!

---

20. Dych'mygaf wel'd cythreuliaid 'n dynwared llawenau,
Fod uffern yn agored, a'r nefoedd wedi 'i chau;

A'r Gwr a wnaeth y cyfan yn hongian ar y gro's,
A'r haul yn cuddio'i wyneb nes gyru'r dydd yn nos.

21. Dych'mygaf wel'd ysbrydion y cyfiawn aeth i'r nef,
Yn plygu lawr yn fynych i edrych arno ef;
A bron a gwaeddi allan, Os Iesu gyll y dydd,
Cawn fyned oll i garchar na ddewn ni byth yn rhydd.

22. Mae'r gair yn dweyd i'r meini i hollti fach a mawr,
A llen y deml rwygo o fyny hyd i lawr,
A'r beddau'n dechreu rhwygo, a'r meirw'n neidio'n rhydd,
Sy'n arwydd digon goleu i angeu golli'r dydd.

23. A swn y gair 'Gorphenwyd', pan floeddiwyd ganddo ef,
A gauodd ddrysau uffern, agorodd byrth y nef:
A dynodd o garcharau fyrddiynau i fod yn rhydd;
Trodd ddyffryn cysgod angeu yn hyfryd foreu ddydd.

24. 'Does feddyg ar y ddaear, nac hefyd yn y nef,
'Mhlith dynion ac angylion gyffelyb iddo ef;
Gall symud pechod chwerw, a chodi'r marw'n fyw,
Anturiaf fy enaid arno, 'rwy'n credu ei fod yn Dduw.

25. Ddaeth barn y Dwyfundodiad erioed i uffern, clyw,
Maent yno'n rhwym i gredu fod Iesu Grist yn Dduw;
Ac yn y nefoedd oleu diameu nad oes un
Ar nad yw'n moli'n wastad y Duwdod yn y dyn.

26. Cymerwch eich cynghori gan Lywydd da'r a nef,
I chwilio'r ysgrythyrau sy'n tystio am dano ef;
A pheidio credu'r diafol, peth annymunol yw,
Bod neb yn beiddio gwadu y peth a dd'wedodd Duw.

27. Y man ca'dd Satan fantais ar ddynion yn yr ardd.
Pan dwyllwyd Adda i fwyta o'r pren oedd wedi wa'rdd;
Mae'r effaith hyn yn para hyd yma yn nghyflwr dyn,
Fe ddod y diawl e i gredu yr hyn ni chred ei hun.

---

ARGRAFFWYD GAN R. JONES, PONTYPOOL.